



## **Asesiad Effaith ar y Gymuned**

**Adolygiad Ysgolion Ardal:- Opsiynau ar gyfer ardal  
Brynffordd, Licswm a Rhosesmor**

**Fersiwn 1: Mehefin 2016**

## Cynnwys

Rhif	Adran
1	Cyflwyniad
2	Darlun o'r Ardal <ul style="list-style-type: none"><li>• Cyfleusterau Cymunedol</li><li>• Busnesau</li></ul>
3	Asesiad Effaith ar y Gymuned
4	Crynodeb o'r Effaith Bosibl ar y Gymuned

## 1. Cyflwyniad

Ym mis Mehefin 2015 penderfynodd y Cabinet ein bod yn dechrau ymgynghoriad anffurfiol ar gyfer adolygiad ardal o'r ysgolion canlynol:-

Ysgol Gynradd Brynffordd

Ysgol Gynradd Licswm

Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor

Bydd yr adolygiad ysgolion ardal yn asesu'r ddarpariaeth addysg yn ardal Brynffordd, Licswm a Rhosesmor.

Mae'r opsiynau ar gyfer yr ardal fel a ganlyn:-

Opsiwn 1 : Cadw'r *Status Quo*

Opsiwn 2 : Ysgol Ardal ar Un Safle

Opsiwn 3 : Cadw Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor ac un Ysgol Ardal ar un safle (naill ai Ysgol Gynradd Brynffordd neu Ysgol Gynradd Licswm)

Byddai hyn yn golygu'r canlynol:-

**Opsiwn 1 : *Status Quo*** – Pob ysgol yn aros fel y mae, yn cadw'i henw, categori, cyllideb, llywodraethwyr, staff ac yn aros yn y gymuned.

**Opsiwn 2 : Ysgol Ardal ar un safle** – Ysgol Ardal – un safle, byddai'r ysgol yn cadw'i chategori ond byddai ganddi enw, corff llywodraethu, pennaeth a chyllideb newydd a byddai'n aros yn un o'r cymunedau, naill ai Brynffordd, Licswm neu Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor.


**Opsiwn 3 : Ysgolion Ardal ar ddau safle** – Byddai Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor yn aros fel y mae, yn cadw ei henw, categori, cyllideb, llywodraethwyr, staff ac yn aros yn ei chymuned. Byddai Ysgol Brynffordd ac Ysgol Licswm yn uno ar un safle. Byddai'r ysgol a unwyd yn aros yn un o'r cymunedau, naill ai Brynffordd neu Licswm.

Casglwyd gwybodaeth allweddol, yn cynnwys Arfarniad Opsiynau, Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a'r Saesneg, Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned ac Arfarniadau Adeilad, fel sail i'r adroddiad hwn ac maent ar gael i'w gweld ar y ddolen ganlynol:-

[www.flintshire.gov.uk/schoolmodernisation](http://www.flintshire.gov.uk/schoolmodernisation)

## 2.0 Darlun o Ardal Brynffordd/Licswm/Rhosesmor

Map yn dangos yr Ardal



Mae yna dair ysgol gynradd yn yr ardal - mae Ysgol Gynradd Brynffordd yn ward plwyf Brynffordd, Ysgol Gynradd Licswm yn ward plwyf Ysceifiog ac Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor yn ward plwyf Helygain. Dosberthir y tair ward yma gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel rhai sydd mewn pentrefan neu anheddiad ynysig mewn cefn gwlad gyfannedd.

Caiff y tair ysgol eu dosbarthu fel Ysgolion Cynradd Cyfrwng Saesneg.

Yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011 y Swyddfa Ystadegau Gwladol, poblogaeth wardiau plwyfi Brynffordd, Ysceifiog a Helygain gyda'i gilydd oedd 5244.

Ar hyn o bryd nid oes ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau tai wedi'u cymeradwyo yn ardaloedd Brynffordd, Licswm a Rhosesmor.

### Cyfleusterau Cymunedol

Yn seiliedig ar yr wybodaeth a roddwyd gan Benaethiaid yn yr holiadur a lenwasant am y gymuned, mae'r cyfleusterau canlynol yn yr ardal ar gael i'w defnyddio gan y gymuned:

Ardal	Cyfleuster Cymunedol
Brynffordd	Neuadd Bentref Brynffordd Eglwys Sant Mihangel Capel Calcoed

Licswm	Neuadd Bentref Ysceifiog Capel Eglwys
Rhosesmor	Neuadd Bentref Rhosesmor

### **Busnesau**

Yn seiliedig ar yr wybodaeth a roddwyd gan Benaethiaid yn yr holiadur a lenwasant am y gymuned, mae nifer o fusnesau yn yr ardal.

<b>Ardal</b>	<b>Busnesau</b>
Brynffordd	Bysiau Oares Siop Brynffordd Clwb Golff Treffynnon Mynwent Anifeiliaid Anwes a Chaffi Meithrinfa Wendy House Chwarel Helygain Tafarn Glan yr Afon Tafarn y Crooked Horn Cytiau Ci
Licswm	Tŷ Tafarn
Rhosesmor	Heb ei lenwi gan y Pennaeth

## Gwybodaeth Bellach am yr Ysgolion

Rhoddir manylion y Cyrff Llywodraethu yn y tabl isod:

	Brynffordd	Licswm	Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor
<b>Nifer Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol</b>	2	2	3
<b>Nifer Rhiant-Lywodraethwyr</b>	3	3	4
<b>Nifer Llywodraethwyr Cymunedol</b>	2	2	3
<b>Nifer llywodraethwyr awdurdod llai (os yn briodol)*</b>	1	1	1
<b>Nifer Athro-Lywodraethwyr</b>	1	1	1
<b>Nifer Staff-Lywodraethwyr</b>	1	1	1
<b>Nifer Penaethiaid Lywodraethwyr</b>	1	1	1
<b>Cyfanswm Nifer y Llywodraethwyr</b>	<b>11</b>	<b>11</b>	<b>14</b>

		Brynffordd	Licswm	Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor
<b>Canran/nifer y disgyblion llawn amser nad ydynt yn mynychu eu hysgol leol</b>				
		57.63%	48.83%	10.09%
<b>Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol i'r gymuned, yn cynnwys gweithgareddau allgyrsiol</b>				
<b>Clwb Brechwast</b>	Yn y Tymor	Dyddiol	Dyddiol	Dyddiol
<b>Clwb Ar Ôl Ysgol</b>	Yn y Tymor	Dyddiol	Dyddiol	Dyddiol
<b>Yr URDD</b>	Yn y Tymor	3 gwaith yr wythnos		
<b>Clwb Chwaraeon Allgyrsiol</b>	Yn y Tymor	3 gwaith yr wythnos	1 neu 2 yr wythnos	
<b>Clwb Coginio</b>	Yn y Tymor	1 waith yr wythnos		
<b>Clwb Cymorth Cyntaf</b>	Yn y Tymor	1 waith yr wythnos		
<b>Heart Start</b>	Yn y Tymor	1 waith yr wythnos		
<b>Clwb Eco</b>	Yn y Tymor	1 waith yr wythnos		
<b>Côr</b>	Yn y Tymor	1 waith yr wythnos		
<b>Clwb Gofal Gwyliau</b>	Allan o'r Tymor	Dyddiol		Dyddiol
<b>Clwb Ffrangeg</b>	Yn y Tymor	Dyddiol am 8 wythnos	1 waith yr wythnos	
<b>Clwb Celf a Chrefft</b>	Yn y Tymor	Dyddiol am 12 wythnos	1 waith yr wythnos	

<b>Clwb Cyfrifiadur</b>	Yn y Tymor		1 waith yr wythnos	
<b>Cyfleusterau Cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol</b>				
<b>Yr Eglwys</b>	Yn y Tymor	3 gwaith y Flwyddyn	1 x Blynyddol	Blynyddol
<b>Neuadd y Pentref</b>	Yn y Tymor	Misol	Misol	Blynyddol
<b>Coedwig Llwyn Tew</b>	Yn y Tymor		1 x wythnosol am 2 dymor	
<b>Y Capel</b>	Yn y Tymor	2 waith y Flwyddyn		Blynyddol
<b>Y Parc</b>	Yn y Tymor		4 neu 5 gwaith y flwyddyn	
<b>Fferm Leol</b>	Yn y Tymor		Blynyddol	
<b>Tŷ Tafarn</b>	Yn y Tymor		Blynyddol	
<b>Chwarel Helygain</b>	Yn y Tymor		Blynyddol	
<b>Mynwent Anifeiliaid Anwes a'r Caffi</b>	Yn y Tymor	Misol		
<b>Llwybr Beicio Cenedlaethol</b>	Yn y Tymor	3 gwaith y Flwyddyn		
<b>Priordy Pantasaph</b>	Yn y Tymor	Blynyddol		
<b>Cae pob tywydd</b>	Yn y Tymor ac Allan o'r Tymor	38 wythnos y Flwyddyn		
<b>Parc Brynffordd</b>	Yn y Tymor	4 gwaith y Flwyddyn		
<b>Cyfleusterau cymunedol a ddarperir a gweithgareddau a gynhelir ar dir yr ysgol</b>				
<b>Brownies</b>	Yn y Tymor	Weekly		
<b>Cool Kidz</b>	Yn y Tymor	Dyddiol		
<b>Cyngor Cymuned</b>	Yn y Tymor ac Allan o'r Tymor	Misol		
<b>Pwyllgor Codi Arian yr Urdd</b>	Yn y Tymor	3 gwaith y Flwyddyn		
<b>Mountain Ranger</b>	Yn y Tymor ac Allan o'r Tymor	4 gwaith y Flwyddyn		
<b>Cynllun chwarae Cyngor Sir y Fflint</b>	Allan o'r Tymor	Dyddiol am 3 wythnos		
<b>Pwyllgor Cyfleusterau Cymunedol</b>	Yn y Tymor ac Allan o'r Tymor	4 gwaith y Flwyddyn		
<b>Cyfeillion yr Ysgol</b>	Yn y Tymor	12 gwaith y Flwyddyn		
<b>Chwaraeon y Ddraig</b>	Yn y Tymor	12 gwaith y Flwyddyn		
<b>Dathliadau Cymunedol</b>	Yn y Tymor	Blynyddol		

<b>Cheeky Monkeys</b>	Yn y Tymor ac Allan o'r Tymor	12 gwaith y Flwyddyn		
<b>Clwb Llyfrau</b>	Yn y Tymor	4 gwaith y Mis		
<b>Clwb Pêl-droed</b>	Yn y Tymor	Wythnosol		
<b>Neuadd y WI</b>	Yn y Tymor		Blynnyddol	
<b>Ffitrwydd Staff</b>	Yn y Tymor		Wythnosol	
<b>Cae'r Ysgol</b>	Allan o Oriau		4 gwaith y Mis	

## 5.0 Asesiad Effaith ar y Gymuned

Ystyriwyd yr opsiynau canlynol wrth asesu effeithiau'r adolygiad ardal ar y gymuned.

Opsiwn 1 - *Status Quo*

Opsiwn 2 - Ysgol Ardal ar Un Safle

Opsiwn 3 - Cadw Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor ac un ysgol Ardal ar un safle (naill ai safle Ysgol Brynffordd neu Ysgol Licswm)

Mae pob un o'r ysgolion yn yr ardal wedi rhoi gwybodaeth am eu rôl o fewn y gymuned (gweler y dudalen gynt). Gan ddefnyddio'r manylion hyn a gwybodaeth arall, aseswyd yr effeithiau posibl canlynol.



MESUR	SYLWADAU	OPSIWN 1 STATUS QUO	OPSIWN 2 YSGOL ARDAL AR UN SAFLE	OPSIWN 3 CADW YSGOL RHOS HELYG AC UN YSGOL ARALL AR UN SAFLE (NAILL AI BRYNFFORDD NEU LICSWM)	MESURAU I LEIHOU UNRHYW EFFAITH NEGYDDOL	EFFAITH WEDDILLIOL
<b>Mynediad at ddarpariaeth o'r un dynodiad ffydd</b>	Mae'r tair ysgol yn yr ardal yn ysgolion cynradd cymunedol. Byddai Opsiynau 2 a 3 o'r un dynodiad hefyd ac wedi'u lleoli ar y mwyaf 6 milltir o'i gilydd	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Dim effaith negyddol gan fod Opsiynau 2 a 3 yn darparu'r un dynodiad ffydd.	Ddim yn berthnasol
<b>Mynediad at ddarpariaeth o'r un cyfrwng iaith</b>	Mae'r tair ysgol yn yr ardal yn Ysgolion Cynradd cyfrwng Saesneg.	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Dim effaith negyddol gan y byddai Opsiynau 2 a 3 yn darparu'r un dynodiad iaith.	Dd/B
<b>Effaith ar y gymuned</b>	Pe bai Opsiwn 2 yn cael ei weithredu byddai addysg gynradd yn dod i ben mewn dau bentref. Pe bai Opsiwn 3 yn cael ei weithredu byddai addysg gynradd yn dod i ben mewn un pentref.  Mae Ysgolion Cynradd Brynffordd a Licswm yn darparu amrywiaeth debyg o weithgareddau, dim un ohonynt angen cyfleusterau arbenigol. Pe bai Opsiynau 2 neu 3 yn cael eu gweithredu, rhagwelir y byddent yn darparu tua'r un nifer neu fwy o weithgareddau.	Niwtral	Negyddol/ Cadarnhaol	Negyddol/Cadarnhaol	Mae yna gyfleusterau eraill ym Mrynffordd/Licswm a Rhosesmor ar gyfer digwyddiadau cymunedol, megis neuadd bentref.  Yn dibynnu ar ba opsiwn a weithredir, byddai potensial i ailgynllunio'r safleoedd ysgol gyda defnydd y gymuned mewn golwg, gallai hyn fod yn gadarnhaol i'r cymunedau sydd yno ar hyn o bryd.	Niwtral

<b>Effaith ar fusnesau lleol</b>	Mae'r cyfleusterau lleol i gyd yn agos neu ar y ffordd i'r ysgolion. Pe bai Opsiwn 2 neu Opsiwn 3 yn cael eu gweithredu, mae'n bosibl y gallai busnesau elwa ar fwy o fynd a dod i'r ysgol.	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Dim effaith negyddol gan y gallai busnesau lleol elwa ar fwy o fynd a dod i'r ysgol.	N/A
<b>Effaith ar ysgolion cyfagos</b>	Ni fyddai Opsiynau 2 a 3 yn effeithio ar ysgolion cyfagos gan y byddai gan yr ysgolion ardal a gynigir ddigon o le i gynnwys pob disgybl o fewn y carfannau presennol	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Dd/B	N/A
<b>Effaith ar y disgyblion</b>	<p>Wrth gynnig newidiadau i drefn ysgolion, cydnabyddir y bydd rhai newidiadau i'r disgyblion pe bai Opsiynau 2 neu 3 yn cael eu gweithredu.</p> <p>Pe bai Opsiwn 2 yn cael ei weithredu, byddai'r disgyblion presennol yn gweld rhywfaint o newid. Y prif newidiadau fyddai:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ffordd newydd neu hirach i'r ysgol</li> <li>• Athrawon newydd</li> <li>• Amgylchedd dysgu newydd</li> <li>• Effaith ar grwpiau cyfeillion</li> <li>• Gwneud ffrindiau newydd</li> </ul> <p>Byddai'r dewis o addysg uwchradd yn dal i fod yr un fath felly ni fyddai effaith ar ddewis ysgol uwchradd i'r disgyblion hyn.</p>	Niwtral	Negyddol/ Cadarnhaol	Negyddol/Cadarnhaol	Byddai Cyngor Sir y Fflint yn cymryd pob cam rhesymol i hwyluso'r symud i bob disgybl yn enwedig grwpiau bregus fel dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Pe bai naill ai Opsiwn 2 neu 3 yn cael eu gweithredu, byddai'r Cyngor yn trefnu diwrnodau pontio i'r disgyblion fel eu bod yn ymgylchedd newydd (yn ôl dewis y rhiant). Byddai unrhyw ddisgybl sy'n cael cefnogaeth ychwanegol yn cael yr un fath yn eu hamgylchedd dysgu newydd.	
<b>Effaith ar rieni/gofalwyr a theuluoedd</b>	Mae posibilrwydd o fwy o effaith ar rieni/gofalwyr os yw naill Opsiynau 2 neu 3 yn cael eu gweithredu.	Niwtral	Negyddol/ Cadarnhaol	Negyddol/Cadarnhaol	Er bod posibilrwydd y byddai effaith ar rieni/gofalwyr a	Niwtral

					theuluoedd, gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar rieni a theuluoedd drwy well darpariaeth addysgol a mynediad at fwy o rieni/gofalwyr yn sgil bod yn rhan o gymuned ysgol fwy.	
<b>Effaith ar Drefniadau Cludiant y Dysgwyr</b>	<p>Mae'n bosibl y bydd gan rai disgyblion fwy o bellter i'w deithio pe bai Opsiwn 2 neu 3 yn cael eu gweithredu. Gall rhai disgyblion weld gostyngiad yn y pellter teithio o'r cartref i'r ysgol.</p> <p>Os yw rhieni/gofalwyr yn dewis anfon eu plentyn/plant i'r ysgol addas agosaf at eu cyfeiriad cartref, bydd Polisi Cludiant y Cyngor yn weithredol. Nid yw'r Cyngor yn cludo disgyblion oed meithrin.</p> <p>Mae posibilrwydd y byddai gan nifer o'r disgyblion yn yr ardal lai neu fwy o waith teithio o'u cyfeiriad cartref i'r ysgol.</p> <p>Gellir gweld yr asesiad effaith ar drefnidiaeth i'r Arfarniad Opsiynau hwn yn y ddolen ganlynol :-  <a href="http://www.flintshire.gov.uk/schoolmodernisation">www.flintshire.gov.uk/schoolmodernisation</a></p>	Niwtral	Niwtral	Niwtral	<p>Datblygwyd Opsiynau 2 a 3 yn unol â Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr Llywodraeth Cymru (diwygiwyd y canllawiau yn 2014). Yn seiliedig ar y lleoliadau cartref presennol a'r agosrwydd at y ddarpariaeth arall, byddai pob pellter teithio o fewn y canllawiau.</p> <p>O'r wybodaeth am y carfannau disgyblion presennol, nodir hefyd fod nifer o ddisgyblion sydd wedi'u lleoli yn yr ardal ac o dan ddewis y rhieni, ddim yn mynychu eu hysgol addas agosaf ac yn teithio i ysgol arall yn yr ardal.</p> <p>Golyga hyn o bosibl, yn dibynnu ar leoliad</p>	Niwtral

					yr ysgol/ion ardal, y byddai rhai disgyblion yn gweld gostyngiad neu gynydd yn eu hamser teithio. Mae hyn yn arbennig o wir am ddisgyblion o Ysgolion Brynffordd a Licswm.	
<b>Effaith ar ddemograffeg y cymunedau</b>	<p>Pe bai Opsiynau 2 neu 3 yn cael eu gweithredu, mae'r Cyngor yn cydnabod y gwelid ychydig o effaith ar y cymunedau.</p> <p>Byddai colli ysgol yn y pentref yn effeithio ar y nifer bychan o weithgareddau cymunedol sy'n digwydd ar hyn o bryd yn Ysgolion Brynffordd a Licswm.</p> <p>Nid oes ceisiadau cynllunio i ddatblygu tai wedi cael eu cymeradwyo ar hyn o bryd ar gyfer ardaloedd Brynffordd, Licswm a Rhosesmor.</p> <p>Pe bai Opsiynau 2 neu 3 yn cael eu gweithredu, mae'r Cyngor yn fodlon y byddai gan y rhwydwaith ysgolion lleol y gallu i gynnal effaith bosibl angenrheidiol datblygiadau tai yn awr ac yn y dyfodol.</p>	Niwtral	Negyddol	Negyddol	<p>Byddai Cyngor Sir y Fflint yn cymryd pob cam ymarferol i sicrhau fod y cymunedau lleol yn parhau i ffynnu.</p> <p>Gellid mabwysiadu mesurau i leihau'r effaith er mwyn sicrhau fod y pentrefi'n dal i ffynnu drwy feithrin cysylltiadau clos rhwng y cymunedau a'r ysgolion.</p>	Niwtral

### Trosolwg o'r effaith bosibl ar deuluoedd a'r gymuned leol

Effaith Gyffredinol*	Cadarnhaol	Niwtral	Negyddol
Opsiwn 1 – <i>Status Quo</i>	-	9	-
Opsiwn 2 – Ysgol Ardal ar un safle	3	5	4
Opsiwn 3 – Cadw Ysgol Rhos Helyg ac un ysgol ardal ar un safle (naill ai Brynffordd neu Licswm)	3	5	4

\*Nid yw hyn yn ystyried unrhyw fesurau y gellid eu cymryd i leihau effeithiau negyddol.

### Trosolwg o'r effaith weddilliol ar deuluoedd a'r gymuned leol

	Cadarnhaol	Niwtral	Negyddol
Effaith Gyffredinol*		4	

\* Nid yw hyn yn ystyried unrhyw fesurau y gellid eu cymryd i leihau effeithiau negyddol

## **5. Crynodeb o'r Effaith Bosibl ar y Gymuned**

Mae'r asesiad effaith wedi canfod nifer o agweddau posibl pe bai Opsiwn 2 neu 3 yn cael eu gweithredu a allai gael rhywfaint o effaith negyddol ar nifer bychan o deuluoedd lleol ac ar y gymuned leol.

Opsiwn 1 – *Status Quo* – dim newid

Opsiwn 2 - Ysgol Ardal ar un safle - bydd ysgol ardal ar un safle yn arwain at rywfaint o effaith negyddol ar y cymunedau, ond gallai arwain at rywfaint o effaith gadarnhaol ar y gymuned lle gosodir yr Ysgol Ardal. Gallai fod effaith gadarnhaol yn y ffaith y byddai'r ysgol ardal o safon addas i sicrhau cyflawni'r cwricwlwm i mewn i'r 21ain ganrif. Gall fod cynnydd neu ostyngiad bychan mewn amseroedd siwrneiau i rai disgyblion, ond dengys y data fod nifer sylweddol o deuluoedd nad ydynt yn teithio i'w hysgol leol. Gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar rieni a theuluoedd drwy well darpariaeth addysgol a mynediad at grŵp mwy o rieni/gofalwyr yn sgil bod yn rhan o gymuned ysgol fwy.

Opsiwn 3 - Cadw Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor ac ysgol ardal ar un safle (naill ai Ysgol Gynradd Brynffordd neu Ysgol Gynradd Licswm). Ni fyddai unrhyw effaith ar gymuned Rhosesmor ond byddai rhywfaint o effaith negyddol ar

gymunedau naill ai Brynffordd neu Licswm. Bydd rhywfaint o effaith gadarnhaol ar leoliad yr ysgol Ardal. Gallai fod effaith gadarnhaol yn y ffaith y byddai'r ysgol ardal o safon addas i sicrhau cyflawni'r cwricwlwm i mewn i'r 21ain ganrif. Gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar rieni a theuluoedd drwy well darpariaeth addysgol a mynediad at grŵp mwy o rieni/gofalwyr yn sgil bod yn rhan o gymuned ysgol fwy.

Byddai colli ysgol mewn pentref yn effeithio ar y gweithgareddau cymunedol a gynhelir a'r cyfleusterau cymunedol o fewn Ysgol Gynradd Brynffordd ac Ysgol Gynradd Licswm. Gall fod posibilrwydd i nifer o'r gweithgareddau a gynhelir ar hyn o bryd ar safle'r ysgol adleoli i leoliad arall, o bosibl neuadd y pentref. Nis adroddwyd am unrhyw weithgareddau cymunedol yn cael eu cynnal yn Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor.

Pe bai naill ai Opsiynau 2 neu 3 yn cael eu gweithredu, nid oes gan y Cyngor gynlluniau yn yr arfaeth ar gyfer dyfodol y safle/oedd ysgol. Byddai hyn yn dilyn proses ar wahân.